

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2024 i 2025 Cyngor Sir Ddinbych

Cyhoeddwyd Mehefin 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

Cynnwys

1.0 Rhagair	3
2.0 Cyflwyniad / Cefndir	4
Atebolrwydd	5
3.0 Crynodeb - Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn	6
Partneriaeth iaith	6
Menter iaith Sir Ddinbych	6
Pencampwyr y Gymraeg	6
Hybu'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol	7
4.0 Diweddariad gan amrywiol Wasanaethau'r Cyngor	10
4.1 Gweithgareddau Cymraeg Llyfrgelloedd Sir Ddinbych	10
4.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaeth Digartrefedd	12
4.3 Gwasanaethau Addysg a Phlant	13
5.0 Datblygu'r Gweithlu	16
5.1 Gwersi Cymraeg	16
5.2 Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd	17
5.3 Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor	17
5.4 Recriwtio - Fframwaith Sgiliau iaith Gymraeg / Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn	20
6.0 Cwynion	20
Cwyn 1	20
Cwyn 2	21
Cwyn 3	22
Cwyn 4	22
7.0 Edrych i'r dyfodol - Cynlluniau 2025-26	23

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

1.0 Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn i chi.

Gan fod Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu'r cynllun gweithio'n hyblyg ble mae staff â'r hawl i weithio mewn nifer o ddulliau gwahanol megis gweithio o gartref mae'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth wedi'i fireinio'n ofalus er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Gan fod mwyafrif y cyfarfodydd bellach yn wyneb yn wyneb mae rhagor o gyfleoedd i'r staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Byddwch yn gweld bod cyfleon i'r staff i fynychu cyrsiau ac i ymuno mewn gweithgareddau mewnol er mwyn iddynt ddefnyddio, datblygu a meithrin eu sgiliau.

Hefyd, byddwch yn gweld bod y Gymraeg yn linyn sy'n rhedeg drwy chwe blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol.

Rhaid i mi ddatgan fy nioch i'r tîm mewnol sy'n cadw tros olwg ar y defnydd o'r Gymraeg dan arweiniad ein Swyddog y Gymraeg newydd, Gerallt Lyall. Rhaid diolch yma i Manon Celyn am ei gwaith yn hybu'r Gymraeg cyn iddi symud i swydd arall y tu allan i'r Sir. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gerallt a'r Pencampwyr Iaith ac unigolion eraill yn werthfawr iawn wrth i'r adrannau mewnol ddatblygu eu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Ymatebwyd yn gadarnhaol i'r pedair cwyn a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn a ceir manylion am y camau a cymerwyd yng nghorff yr adroddiad hwn.

Mae'r gwaith da yn parhau. Cofiwch, gallwch drafod unrhyw fater sydd yn ymwneud â'r Adroddiad hwn neu â'r Gymraeg yn gyffredinol o fewn y Cyngor Sir, gyda Swyddog Iaith y Gymraeg.

Cynghorydd Emrys Wynne

Aelod arweiniol dros y Gymraeg, Treftadaeth a Diwylliant



Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

2.0 Cyflwyniad / Cefndir

Mae'n ofynnol ar y Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg, a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn amlinellu'r gwaith a wnaed i gydymffurfio â gofynion y Safonau rhwng Ebrill y 1af a Mawrth 31ain. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ein degfed flwyddyn o weithredu Safonau'r iaith Gymraeg. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo'n llwyr i ymateb yn bositif i'r Safonau iaith ac mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn ein Strategaeth iaith Gymraeg 2023-2028, a gyhoeddwyd fis Mehefin 2023. Rydym yn hollol ymrwymedig at chwarae ein rhan tuag at yr ymdrechion cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

[Gweld rhestr lawn o'r Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy.](#)

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

Pwrpas y Safonau yw:

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr iaith Gymraeg
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y medrant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

Rydym yn parhau i gefnogi'r gweithlu wrth weithredu'r Safonau iaith ac ein targed yw dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Caiff hyn ei wneud trwy hyrwyddo cyrsiau Cymraeg iddynt ddechrau ar eu taith iaith, neu gyrsiau hyder a gweithgareddau mewnol iddynt ddatblygu a meithrin eu sgiliau.

Mae gennym weledigaeth glir ar gyfer yr iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.

- Mae addasiad wedi bod i Gynllun Corfforaethol y Cyngor yn ystod y flwyddyn hon ac yn hytrach na chael blaenoriaeth am y Gymraeg oedd yn bodoli ar wahân,

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

cydnabuwyd bod angen i'r Gymraeg gael ei phlethu a'i ffrydio drwy bob un o'r chwe blaenoriaeth o fewn y Cynllun Corfforaethol. Rydyn wedi rhoi dulliau monitro yn eu

- lle ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau yn y cynllun corfforaethol diwygiedig i sicrhau bod y Cyngor y diwallu'r nod hwn.
- Sir ddwyieithog gan fwyaf yw Sir Ddinbych gyda threftadaeth a diwylliant cyfoethog. Rydym yn falch o hyn ac am i'r balchder hwnnw gael ei adlewyrchu yn ein gwaith dyddiol gyda chymunedau, gyda thrigolion a gyda'n staff.
- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod egwyddorion y Safonau Iaith yn sail i'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd; rydym am i bobl allu cael mynediad at wasanaethau drwy eu dewis iaith naturiol, ar bob cam o'u bywydau.
- Rydym am ychwanegu at ddiwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddi a chymdeithasol i'n staff i weithio yn y Gymraeg ac i gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.
- Rydym am weithio gyda phartneriaid a'r gymuned ehangach i sicrhau fod y Gymraeg yn iaith ffyniannus yn Sir Ddinbych.
- Yn ogystal â'r uchod, mae'r Cyngor wedi parhau i ymateb yn gadarnhaol i'r Fframwaith 'Mwy Na Geiriau' a Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg (rhoddir diweddariad ar y gwaith hwn nes ymlaen yn y ddogfen hon).

Atebolrwydd

Gorweddai cyfrifoldeb strategol am yr iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych gyda Thîm Gweithredol Corfforaethol y Cyngor. Y Cyfarwyddwr Arweiniol yw Gary Williams, a'r Aelod Arweiniol gwleidyddol yw'r Cynghorydd Emrys Wynne a oedd yn gyfrifol am yr iaith Gymraeg, Treftadaeth a Diwylliant dros gyfnod yr adroddiad hwn. Swyddog iaith Gymraeg y Sir yw Gerallt Lyall.

Os hoffech drafod yr adroddiad dylech gysylltu'n uniongyrchol â'r adran berthnasol drwy e-bost ar cymraeg@sirddinbych.gov.uk.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

3.0 Crynodeb - Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

Partneriaeth iaith

Mae'r Cyngor yn bartner gweithgar yn y Bartneriaeth iaith sy'n cael ei arwain gan Fenter Iaith Sir Ddinbych. Mae'r Fforwm yn cynnwys nifer o sefydliadau, lleol a chenedlaethol, sy'n gweithio tuag at hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn strategol yn Sir Ddinbych.

Menter iaith Sir Ddinbych

Rydym yn parhau i fod â chytundeb lefel gwasanaeth gyda Menter iaith Sir Ddinbych gan eu bod yn derbyn cyllid grant blynyddol gennym. Am hynny, mae'r Fenter yn cefnogi'r Cyngor yn ei ymdrechion i hyrwyddo a gwella'r Gymraeg yn Sir Ddinbych. Fe wnaethom gefnogi Gorymdaith Gŵyl Dewi yn Ninbych a drefnwyd gan y Fenter. Mynychodd 600 o blant ysgol ac roedd Cynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych yn bresennol, ac fe wirfoddolodd tri swyddog o'r Cyngor Sir i helpu gyda'r stiwardio digwyddiad. Gallwch wyllo fidio o'r diwrnod - [Gorymdaith Gŵyl Dewi 2025](#).

Rydym wedi cydweithio yn agos gyda'r Fenter i hyrwyddo Addysg Gyfrwng Gymraeg yn y sir hefyd. Mae tudalennau'r adran addysg ar wefan Cyngor Sir Ddinbych wedi eu ddiweddarau ac yn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Mae gwybodaeth am fanteision addysg Gymraeg hefyd yn cael eu rhannu'n rheolaidd ar blatfformau digidol eraill y sir. [Addysg cyfrwng Cymraeg](#).

Mae cardiau post yn cynnwys gwybodaeth am fanteision bod yn ddwyieithog ac addysg Gymraeg wedi cael eu cynhyrchu a'u rhannu gyda randdeiliaid perthnasol i'w dosbarthu e.e. ymwelwyr iechyd, bydwagedd, Mudiad Meithrin, ysgolion a.y.b. Cynhaliwyd Taith Magi Ann o amgylch llyfrgelloedd y Sir i ddosbarthu'r cardiau post a chynnal sgysiau gyda rhieni sesiynau Dechrau Da i hyrwyddo manteision Addysg Gymraeg.

Pencampwyr y Gymraeg

Mae aelodaeth Pencampwr y Gymraeg wedi cynyddu eleni a bellach mae 20 o swyddogion yn perthyn i'r grŵp. Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i fonitro cynnydd gyda'r Safonau ynghyd â rhannu arferion da, hyfforddiant perthnasol a gweithredu fel

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

cyfaill beirniadol. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth o anghenion y Safonau a'r strategaeth gysylltiedig yn ogystal â chynnal ymarferion siopwr cudd.

Mae'r Pencampwyr yn parhau i atgyfnerthu'r safonau iaith drwy hwyluso'r broses cyfathrebu fewnol i weddill y Cyngor trwy rannu rhestrau gwirio safonau, hyrwyddo gwersi Cymraeg, sesiynau Paned a Sgwrs a chodi ymwybyddiaeth o ddiwrnodau cenedlaethol fel Dydd Owain Glyndŵr, Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Miwsig Cymru, Shwmae Su' mae, Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg ac ati.

Hybu'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol

Rydym wedi bod yn gwneud llawer o waith allweddol i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac allanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau bod y Safonau Iaith yn cael eu cyflwyno. Dyma rai o'r prosiectau hynny:

Dydd Santes Dwynwen

Crëwyd cwis am hanes Santes Dwynwen fel rhan o'r dathliadau. Fe'i rhannwyd yn fewnol ac yn allanol ar ein cyfryngau cymdeithasol. Fe wnaethom hefyd rannu ar ein cyfryngau Cymdeithasol yn fewnol i staff ac yn allanol i'r cyhoedd dogfen o eirfa Cymraeg perthnasol gyda seineg i helpu dysgwyr Cymraeg.

Diwrnod Shwmae Su'mae

Unwaith eto eleni roeddem yn rhan o ddatliadau diwrnod Shwmae Sumae ar y 15fed o Hydref. Bwriad y diwrnod yw hyrwyddo'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda 'Shwmae' neu 'Su' mae' gyda'r nod i ddangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb - siaradwyr rhugl, dysgwyr neu os ydych yn swil am eich Cymraeg. Fe wnaethom rannu ambell neges ar ein cyfrifon cymdeithasol yn ogystal â rhannu'r fidio canlynol - [Fidio Shwmae Su' mae 2024](#). Ein ffocws eleni oedd defnyddio'r Gymraeg yn eich gwaith.

Dydd Miwsig Cymru

[Crëwyd rhestr chwarae o ganeuon Cymraeg](#) i'w rhannu gyda staff a'u hannog i chwarae'r rhestr chwarae gartref, yn y gwaith neu wrth deithio yn y car. Rhannwyd Cwis am gerddoriaeth Cymraeg i staff y Cyngor Sir ac yn allanol ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

Dydd Gŵyl Dewi

Fe wnaethom rannu fidio ar ein cyfryngau cymdeithasol am hanes Dewi Sant, a chreu cwis am Dewi Sant. [Fidio Dewi Sant 2025](#).

Mae'r fideo yn cynnwys aelodau o'r Uwch Dîm Arwain, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Arweiniol dros y Gymraeg, Treftadaeth a Diwylliant yn siarad Cymraeg ac yn annog y cyhoedd i ffonio ac e-bostio'r cyngor yn Gymraeg. Hefyd mae'r fidio yn cynnwys pobl ifanc sy'n mynychu ein Clybiau Ieuencid a Swyddog Iaith y Cyngor Sir yn adrodd ychydig o hanes Dewi Sant. Mae'r fideo yn gorffen gyda staff o wahanol adrannau'r Cyngor yn dymuno Dydd Gŵyl Dewi Hapus i bawb.

Paned a Sgwrs

Rydym wedi ail-sefydlu ein sesiynau misol Paned a Sgwrs i weithwyr y Cyngor Sir. Dyma oedd gan rhai o fynychwyr ein sesiynau yn dweud am y sesiynau:-

"The Paned a Sgwrs sessions have been an enjoyable way to practice speaking Welsh in a relaxed environment where we do not need to feel afraid to make mistakes or forget words. It's a great initiative to encourage more use of the Welsh language in our everyday lives. Dw i'n mwynhau dysgu siarad Cymraeg yn Paned a Sgwrs!"

"It gives me the opportunities to speak with others in Welsh and consolidate my learning that I would otherwise miss, and learn new words and motivate me to keep speaking and learning Welsh."

Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg

Gyda chymorth y Pencampwyr Cymraeg cynhaliwyd standin yn swyddfeydd y Cyngor Sir yn Nhŷ Russell yn y Rhyl ac yn Neuadd y Sir Rhuthun i hyrwyddo Ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg - Defnyddia Dy Gymraeg. Roedd cyfle i gael sgwrs yn y Gymraeg, cael mwy o wybodaeth am wersi Cymraeg a sesiynau Paned a Sgwrs yn ogystal â rhannu bathodynau a chortynnau gwddf siarad a dysgu Cymraeg i staff.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

Busnes a'r Economi

Mis Mawrth Menter - cynhaliwyd seminar dwyieithog Defnyddio'r Gymraeg mewn Busnes a hefyd hysbysebwyd seminar Cymraeg Llywodraeth Cymru - Cychwyn Busnes. Bellach mae Gwefan Helo Blod yn cael ei hysbysebu ar [dudalen Busnes ar ein gwefan Corfforaethol](#).

Ymgyrch Llyfrau Cymraeg i Gartrefi Gofal

Trefnwyd ymgyrch er mwyn casglu llyfrau Cymraeg ac wedyn ei dosbarthu i Gartrefi gofal yn y Sir. Cydweithiodd Adran Llyfrgelloedd y Sir, Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaeth Digartrefedd a gweithwyr cyffredinol y sir drwy gasglu hen lyfrau / llyfrau oedd dim ei hangen dim mwy gan eu casglu yn Neuadd y Sir ac yn Nhŷ Russell. Casglwyd oddeutu 100 o lyfrau sydd wedi cael ei dosbarthu i Gartrefi Gofal yn y Sir er mwyn cael eu darllen gan breswylwyr.

Iaith Gwaith

Rydym wedi parhau i hyrwyddo ac annog staff i wisgo cortynnau gwddw neu fathodynau Iaith Gwaith. Yn yr un modd, rydym wedi datblygu Cefndir TEAMS gyda logo Iaith Gwaith neu ar gyfer dysgwyr sy'n nodi 'Dwi'n dysgu Cymraeg' fel bod staff yn gallu adnabod siaradwyr Cymraeg mewn cyfarfodydd ar lein. Rydym wedi creu canllawiau ar sut i recordio neges ddwyieithog ar system ffon Jabber y Cyngor Sir mae'r canllawiau ar ein mewnwyd.

Pwyllgor Llywio'r Gymraeg

Mae'r pwyllgor wedi bod yn parhau i gyfarfod ar-lein ac wedi bod yn gwahodd rhai o'n partneriaid i roi cyflwyniad yn y cyfarfodydd ar eu gwaith o fewn y sir. Rydym wedi cryfhau rôl y Pwyllgor wrth fonitro a Chraffu bod yr Iaith Gymraeg yn cael ei brif ffrydio ym mhob un o 6 meysydd ein Cynllun Corfforaethol. Mae'r pwyllgor hefyd yn craffu ar adran Effaith ar y Gymraeg yn ein Hasesiadau Effaith ar Les er mwyn sicrhau bod Ymdrech Gydwbybodol yn digwydd mewn Penderfyniadau Polisi'r Cyngor.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

4.0 Diweddariad gan amrywiol Wasanaethau'r Cyngor

4.1 Gweithgareddau Cymraeg Llyfrgelloedd Sir Ddinbych

Dyma flas ar weithgareddau gyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ein Llyfrgelloedd:

- Ymweliadau ysgolion yn digwydd yn rheolaidd
- Ymweliadau gan Gylchoedd Meithrina grwpiau gofalwr plant.
- Gweithdai crefft i oedolion a phlant
- Eleni sefydlwyd grwpiau crefft newydd 'Crefft a Chlonc'
- Sesiynau Cofio yn Llyfrgelloedd Rhyl a Rhuthun - 'Wyt ti'n cofio'
- Her 25 Llyfr.
- Sesiwn "Cyfarfod yr Awdures" gyda Rebecca Roberts gyda Dysgwyr Cymraeg yn Llyfrgell Dinbych ac fe lansiodd ei nofel Gymraeg ddiweddaraf yn Llyfrgell Llanelwy ym Mawrth 2025
- Prosiect Sêr y Silffoedd - ymwelodd Anni Llŷn â llyfrgelloedd y Dinbych a Rhuthun

Gŵyl Ffuglen

Roedd dwy awdures Cymraeg adnabyddus yn rhan o'r Ŵyl eleni. Cynhaliodd Manon Steffan Ros sesiwn "Cyfarfod yr Awdur" yn Llyfrgell y Ddinbych, a chynhaliodd Myfanwy Alexander sesiwn debyg yn Llyfrgell Rhuthun.

Her Darllen Haf 2024 – Crefftwyr Gwych

Roedd Llyfrgell Dinbych yn falch o gynnal y lansiad cenedlaethol ar gyfer Her Darllen Haf 2024, gyda phlant o Ysgol Twm o'r Nant yn ymuno â'r awdur Leisa Mererid ar gyfer sesiwn yoga a symudiad yn seiliedig ar ei llyfr 'Y Wariar Bach'. Trefnwyd y sesiwn mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru.

Dechrau Da Sir Ddinbych

Mae Tîm Dechrau da yn cynnig sesiynau dwyieithog yn llyfrgelloedd Sir Ddinbych yn ystod termau ysgol. Cynyddodd y nifer o bobl a fynychodd i 12,948 yn ystod y cyfnod hwn. Ymwelodd staff o Fenter Iaith Sir Ddinbych a Rhwydwaith Iaith Gymraeg (RHAG – Rhieni Dros Addysg Gymraeg) â'r sesiynau ym mis Hydref i hyrwyddo manteision addysg drwy

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

gyfrwng y Gymraeg. Roedd cymeriad llyfrau poblogaidd Cymraeg Magi Ann hefyd yn bresennol.

Dyma oedd gan rhai o'r cyhoedd i ddweud am sesiynau Dechrau da:

“Dan ni mor lwcus i gael Dechrau Da yma yn Sir Ddinbych. Mae'r merched yn wych efo pob plentyn ac yn cynnig sesiynau dwyieithog hwylus! Diolch yn fawr.”

“Mae Dechrau Da yn wasanaeth gwerthfawr iawn ar gyfer plant ifanc a'u rhieni. Mae'n dysgu llawer o sgiliau gwerthfawr i'r plant fel rhannu, cyd-chwarae, dilyn cyfarwyddiadau, canolbwyntio, cymryd rhan, yn ogystal â datblygu geirfa a dealltwriaeth o iaith. Diolch yn fawr, tîm Dechrau Da!”

Cynnig Digidol

BorrowBox yw gwasanaeth cenedlaethol sy'n caniatáu i ddarllenwyr ddarganfod rhifyn diweddaraf Y Cymro a phapurau newydd a chylchgronau Cymraeg ar-lein.

Dyma rhai o ystadegau'r flwyddyn:

- 4,795 o e-lyfrau Cymraeg ar gyfer oedolion ar gael ar BorrowBox, a 750 o lyfrau sain.
- 130 o lawr lwythiadau'r Cymro
- Mae 5,993 o e-lyfrau Cymraeg i blant a phobl ifanc, a 465 o lyfrau sain.
- Fe ychwanegwyd dros 2,000 o gyfrolau newydd Cymraeg y llynedd.
- Lawr lwythwyd 857 o e-lyfrau Cymraeg a 401 o lyfrau sain gan aelodau llyfrgelloedd Sir Ddinbych.

Benthyca Llyfrau Cymraeg

O Ebrill tan Ragfyr y llynedd, mi benthycwyd 14,000 o eitemau Cymraeg (llyfrau, llyfrau sain a DVD), er nad yw'r data llawn ar gael ar hyn o bryd. O'r rhain, roedd 66% yn llyfrau plant, sy'n dangos cyfraniad sylweddol llyfrgelloedd lleol at gynyddu nifer y plant sy'n defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Gyda dim ond dwy siop lyfrau Cymraeg yn y sir, mae'r llyfrgell leol yn ffynhonnell allweddol o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion. Mae

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

llyfrgelloedd yn cydweithio'n agos â Siop y Siswrn, a ddarparodd nifer o deitlau Cymraeg am ddim fel anrhegion i blant ar Ddydd y Llyfr.

Gwasanaeth iaith Gymraeg

Mae gwasanaeth Cymraeg ar gael ym mhob llyfrgell, ac mae staff yn cael cefnogaeth i ddysgu a datblygu eu sgiliau iaith. Mewn partneriaeth â Menter iaith Sir Ddinbych, mae sawl llyfrgell yn arddangos posteri sy'n annog ymwelwyr i ymarfer eu Cymraeg yn y lleoliad.

4.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaeth Digartrefedd

Cynnydd gyda fframwaith 'Mwy na Geiriau'

Rydym yn parhau yng Nghyngor Sir Ddinbych i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gwasanaethau Oedolion a Digartrefedd a'r Gwasanaethau Plant. Mae'r gwaith hwn wedi'i arwain gan Fframwaith Mwy na Geiriau (2022-27) ac mae grŵp mewnol, sy'n cynnwys Cynghorwyr, Rheolwyr a swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd i arwain y camau gweithredu. Mae ymrwymiad clir i wella gwasanaethau i sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol a'r Gymraeg yn elfen allweddol o ofal, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan y sector annibynnol.

- Rydym yn parhau i gydweithio'n agos efo'r Fenter Iaith Leol, Swyddogion Comisiynu, Swyddog iaith y Cyngor a'r swyddogion sy'n mynychu'r Fforwm Mwy na Geiriau Rhanbarthol fel bod modd rhannu arfer da.
- Rhannwyd manylion y modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg sydd wedi'i ddatblygu gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer gweithwyr a myfyrwyr gofal cymdeithasol sy'n dymuno dysgu mwy am y Gymraeg, diwylliant a gweithio'n ddwyieithog.
- Rydym wedi annog yr holl staff i gwblhau'r cwrs 'Croeso' byr sydd wedi'i ddatblygu ar gyfer staff sy'n gweithio yn y sector Gofal Cymdeithasol.
- Rydym wedi comisiynu rhagor o gyrsiau sgiliau Cymraeg i staff, gan gynnwys cwrs 'cwrdd â chyfarch y cyhoedd yn Gymraeg'.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

- Rydym hefyd yn hyrwyddo ystod o gyfleoedd hyfforddiant iaith (gan gynnwys y cwrs 'Camau') a chwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn.
- Trefnwyd stondin yn y swyddfa fel bod staff yn gallu cwrdd efo Pencampwyr iaith y ddau Wasanaeth. Roedd hyn hefyd yn gyfle i rannu gwybodaeth am gyfleoedd i ddysgu a gwella sgiliau Cymraeg a hefyd yn gyfle i rannu deunyddiau sy'n hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol megis posteri, bathodynau, beiros, cortynnau gwddf a magnetau.
- Mae'r tîm Gwasanaethau Oedolion wedi cymryd rhan yn y Prosiect Arfer a ddarperir gan Brifysgol Bangor. Nod y prosiect yw newid arferion iaith er mwyn galluogi cydweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg (ond sydd wedi sefydlu arferiad o ddefnyddio'r Saesneg) i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith.

4.3 Gwasanaethau Addysg a Phlant

Diweddariad Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg - Diweddariad 2024/25

Mae llawer o ddatblygiadau o ran y Gymraeg mewn Addysg wedi digwydd dros y flwyddyn – dyma ychydig o'r prif bwyntiau isod.

Cydweithio gydag adrannau a thimau Blynyddoedd Cynnar Sir Ddinbych

Mae swyddog CSCA Sir Ddinbych yn rhan o bwyllgor Tîm Blynyddoedd Cynnar Sir Ddinbych gyda'r Gymraeg ar yr agenda ymhob cyfarfod yn trafod:

- Lleoliadau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg
- Defnydd o'r Gymraeg ym mhob lleoliad cyn ysgol
- Staff sy'n siarad Cymraeg yn y tîm
- Hyfforddiant
- Sut mae rhannu gwybodaeth gyda rhieni am opsiynau addysg cyfrwng Cymraeg.

Mudiad Meithrin

- Nifer y Cylchoedd Meithrin a nifer y lleoliadau Cylchoedd Meithrin wedi codi i 19
- Nifer y plant sy'n mynychu'r Cylchoedd Meithrin wedi codi i 566

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

- Canran y plant sy'n trosglwyddo o'r Cylch Meithrin i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi codi i 96.2%
- Dysgwyr meithrin sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi codi i 30%

Dechrau'n Deg

Nifer y lleoliadau Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg wedi codi o 3 i 6.

- Cylch Capel Seion
- Cylch Meithrin Bodawen
- Cylch Meithrin Henllan
- Cylch Y Lllys
- Cylch Dewi Sant
- Cylch Y Dderwen

Cynyddu capasiti mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg

- Mae'r adeilad newydd ar safle Ysgol Twm o'r Nant bron a bod yn barod wedi cyfnod o oedi oherwydd trafferthion gyda'r to.
- Mae niferoedd yn nosbarthiadau Meithrin a Derbyn wedi sefydlogi ers y cyfnod COVID ac wedi codi mewn rhai ysgolion.
- Mae cynnydd amlwg yn niferoedd meithrin a derbyn yr ysgolion hynny, ble mae darpariaeth gofal plant ar safle'r ysgol.

Tîm Cefnogi'r Gymraeg

- Mae tîm Cefnogi'r Gymraeg yn parhau i gydlynu gweithgareddau, hyfforddiant a chreu a rhannu adnoddau dysgu fel bo dysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg ar draws pob sector.
- Mae model cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid yn datblygu'n dda. Mae nifer o ddisgyblion sy'n newydd-ddyfodiaid i ysgolion Cymraeg yn parhau i gynyddu a'r gefnogaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan bawb.
- Mae adnoddau a chynlluniau gwaith wedi eu creu a chydweithio agos rhwng staff y gwasanaeth a rhieni ac athrawon.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

Ysgolion Uwchradd

- Mae'r ddwy ysgol uwchradd dwy ffrwd yn ysgolion Categori 2 o dan y drefn categoraiddio newydd.
- Mae trafodaethau yn parhau i gynyddu'r nifer o bynciau a addysgir trwy'r Gymraeg yn y ddwy ysgol yma.
- Mae llawer o gydweithio wedi bod i baratoi ar gyfer y cymhwyster TGAU newydd.
- Mae gwefan wedi ei greu i rannu gwybodaeth ac adnoddau gydag athrawon Cymraeg ysgolion uwchradd.
- Mae angen atgyfnerthu'r neges a'r disgwyliad bod plant yn derbyn addysg Gymraeg o'r meithrin tan 16 +.
- Mae nifer o ddisgyblion wedi cofrestru ar gyfer y dosbarth trochi yn Ysgol Glan Clwyd wedi cynyddu'n sylweddol o 15 yn 2024 i 30 ym Medi 2025.

Siarter Iaith / Cymraeg Campus

- Bydd pob ysgol gynradd Gymraeg yn cael eu hail-asesiad ar gyfer y wobr arian yn yr haf ac Ysgol Llanfair yn mynd am y wobr aur.
- Yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg mae 25 ysgol wedi derbyn y wobr efydd a 7 ysgol y wobr arian. Rhagwelir y bydd 2 ysgol yn derbyn y wobr aur yn y dyfodol agos.
- O'r 7 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg a dwy iaith, mae un ysgol wedi derbyn y wobr arian, un ysgol y wobr efydd a rhagwelir y bydd 2 ysgol yn derbyn y wobr aur yn y dyfodol agos.

Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY")

- Rhannwyd holiaduron gydag adrannau ADY y Sir, ysgolion arbennig a chydlynwyr ADY mewn ysgolion Cymraeg. Wedi dadansoddi'r ymatebion, y brif neges oedd bod yr awdurdod yn llwyddo i ddarparu cefnogaeth trwy'r Gymraeg i ddysgwyr ADY a bod cynnig trwy'r Gymraeg i ddysgwyr mewn nifer o wahanol feysydd.
- Mae staff ADY yr awdurdod yn cynnig gwasanaeth dwyieithog, mae'r ysgolion arbennig yn cynnig addysg a chefnogaeth ddwyieithog ac mae cydlynwyr ADY

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

ysgolion Cymraeg y sir yn derbyn cefnogaeth dda gan y sir. Er hyn, mae prinder adnoddau Cymraeg yn broblem ac mae recriwtio staff sy'n medru siarad Cymraeg yn heriol iawn.

- Mae gwybodaeth am ddarpariaeth ADY trwy gyfrwng y Gymraeg wedi ei ddiweddarau ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.
- Mae swyddog CSCA Sir Ddinbych yn cydweithio'n agos gyda swyddogion ADY y sir i sicrhau bod darpariaeth gytbwys i ddisgyblion ADY cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
- Mae rhwydwaith yn cael ei greu i rannu gwybodaeth, asesiadau ac adnoddau Cymraeg ar gyfer staff ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

- Mae Tîm Cefnogi'r Gymraeg yn parhau i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant i staff mewn ysgolion ar addysgeg a dulliau addysgu Cymraeg.
- Rydym mewn cysylltiad gyda swyddogion o Dysgu Cymraeg, sydd wrthi'n cynllunio rhaglenni cenedlaethol i hyfforddi'r gweithlu i ddysgu siarad Cymraeg. Mae 6 o athrawon ein hysgolion T2 wedi cael eu hariannu i fynychu cwrs dysgu Cymraeg Sylfaen. Mae staff 2 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn derbyn hyfforddiant blasu 10 awr. Mae 2 athro wedi cael eu derbyn i fynychu cwrs sabothol i ddysgu Cymraeg.
- Byddwn yn parhau i graffu ar ddata SWAC y sir i ddadansoddi ble mae'r bylchau.

5.0 Datblygu'r Gweithlu

5.1 Gwersi Cymraeg

Dyma'r nifer o aelodau staff y Cyngor fynychodd wersi Cymraeg drwy gynllun 'Cymraeg Gwaith' gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a 'Cynnig Cymraeg' Gofal Cymdeithasol Cymru:

Lefel y Cwrs	Nifer
Blasu	31
Cwrdd â chyfarch y cyhoedd	10

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

Lefel y Cwrs	Nifer
Mynediad	21
Sylfaen	13
Cyfanswm	75

Mae cyrsiau blasu Cymraeg 10 awr ar-lein ar gael i'r rheiny sydd eisiau dechrau ar eu taith iaith. Mae'r cyrsiau hyn yn cyflwyno geirfa ac ymadroddion pob dydd ac maen nhw ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim. Mae rhai cyrsiau wedi eu teilwra ar gyfer gwahanol sectorau sef y sector iechyd, gofal, gwasanaethau cyhoeddus, athrawon, penaethiaid, twristiaeth, manwerthu, twristiaeth Cymru.

5.2 Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd

Gwelir isod fanylion am nifer / canran y staff sydd wedi gwneud hyfforddiant sefydlu yn y Gymraeg a hefyd canran o'r staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith y Sir yn ystod 2024-25.

Cwblhaodd 10 aelod o staff eu hyfforddiant ymsefydlu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymwybyddiaeth iaith (yn cynnwys ysgolion)

Statws	%
Wedi'i gwblhau	76
Heb ei gwblhau	24

5.3 Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor

Cyflwynir isod y wybodaeth sydd gan y Cyngor yn bresennol. Bwydir y wybodaeth yma'n ôl i'r gwasanaethau fel bo'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gallu cynllunio eu gweithluedd.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

Canlyniadau Corfforaethol yn unig (ac eithrio ysgolion)

Darllen / deall

Lefel	Nifer y staff	Canran (%)
0	355	22%
1 (dysgu Cymraeg)	687	43%
2 (dysgu Cymraeg)	185	11%
3 (dysgu Cymraeg)	120	7%
4 (rhugl)	145	9%
5 (rhugl)	124	8%
Cyfanswm	1616	

Gwranddo / siarad

Lefel	Nifer y staff	Canran (%)
0	297	18%
1 (dysgu Cymraeg)	714	44%
2 (dysgu Cymraeg)	224	14%
3 (dysgu Cymraeg)	120	7%
4 (rhugl)	131	8%
5 (rhugl)	130	8%
Cyfanswm	1616	

Ysgrifennu

Lefel	Nifer y staff	Canran (%)
0	540	33%
1 (dysgu Cymraeg)	555	34%

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

Lefel	Nifer y staff	Canran (%)
2 (dysgu Cymraeg)	187	12%
3 (dysgu Cymraeg)	112	7%
4 (rhugl)	102	6%
5 (rhugl)	120	7%
Cyfanswm	1616	

Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor fesul gwasanaeth

Gwasanaeth	Nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5) a (%)	Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg (Lefelau 1,2 a 3) a (%)	Nifer y staff gyda Lefel 0 Cymraeg a (%)
Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaeth Digartrefedd	42 (12%)	216 (63%)	86 (25%)
Gwasanaeth Cefnogaeth Corfforaethol – Pobl	29 (33%)	51 (59%)	7 (8%)
Gwasanaeth Cefnogaeth Corfforaethol – Perfformiad, Digidol ac Asedau	16 (14%)	81 (72%)	16 (14%)
Gwasanaethau Addysg a Phlant	49 (20%)	154 (64%)	37 (15%)
Gwasanaeth Cyllid ac Archwilio	12 (17%)	52 (75%)	5 (7%)
Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol	39 (10%)	264 (66%)	98 (24%)
Gwasanaethau Tai a Chymunedau	43 (23%)	118 (64%)	22 (12%)
Gwasanaethau Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chefn Gwlad	31 (17%)	122 (68%)	26 (15%)

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

5.4 Recriwtio - Fframwaith Sgiliau iaith Gymraeg / Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn

Rydym yn parhau i weithredu'r Fframwaith sydd yn ffordd syml i staff hunan asesu eu sgiliau iaith yn seiliedig ar y mathau o dasgau cyfathrebu (darllen, siarad a deall ac ysgrifennu) y gallent eu cyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ffordd effeithiol o fedru monitro pa lefel o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swydd a pha gwrs y bydd gweithwyr ei angen er mwyn symud i'r lefel nesaf. Mae dilyn y fframwaith hwn yn ein galluogi i gefnogi gweithwyr ar eu taith iaith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Defnyddir y Fframwaith hefyd gan reolwyr wrth iddynt bennu lefel recriwtio mewn Swydd Ddisgrifiadau bellach. Cychwynnodd hyn yn fis Chwefror felly mi fydd effaith hyn i weld yn yr Adroddiad Monitro'r flwyddyn nesaf. Rydym wedi diweddarau'r Fframwaith lefelau'r flwyddyn yma - [Y Gymraeg ar gyfer recriwtio: Lefelau o ran sgiliau Cymraeg](#).

Dyma fanylion am nifer/canran y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol; a nifer/canran y swyddi ym mhob categori lle penodwyd siaradwyr Cymraeg.

Categori iaith Gymraeg mewn swyddi a hysbysebwyd

Categori	Nifer a % fesul categori iaith	Canran (%)
Hanfodol	52	10%
Dymunol	437	81%
Dysgu ar ôl penodi	3	1%
Nid oes angen sgiliau Cymraeg	47	9%

6.0 Cwynion

Cwyn 1

Dyddiad	22/07/2024
Yr Achwynydd	Comisiynydd y Gymraeg - Ymchwiliad CS1197 a CS1206

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

Dyddiad	22/07/2024
Natur y gŵyn	1. Cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni bod tudalen Facebook Canolfan Hamdden Dinbych yn cynnwys costïadau/gwybodaeth yn Saesneg yn unig. 2. Derbyniwyd sylwadau gan aelod o'r cyhoedd am wefan Hamdden Sir Ddinbych Cyf (DLL), a oedd yn cynnwys amserlenni nofio yn Saesneg yn unig.
Ymateb y Cyngor	1. Rydym wedi creu canllawiau ar gyfer staff sy'n gyfrifol am ein gwefannau cymdeithasol ynghylch gofynion safonau'r Gymraeg (gan gynnwys Safon 58), ac rydym wedi'i ddosbarthu i'r staff perthnasol. 2. Rydym wedi monitro tudalen Facebook Canolfan Hamdden Dinbych ac rydym yn cysylltu â Hamdden Sir Ddinbych Cyf os ydynt yn canfod unrhyw broblemau gyda chydymffurfio â safonau'r Gymraeg. 3. Rydym wedi sicrhau bod holl amserlenni ar wefan Hamdden Sir Ddinbych Cyf ar gael yn Gymraeg (gan gynnwys amserlenni nofio, yr amserlen aelodaeth i blant, ac amserlenni dosbarthiadau). 4. Rydym yn parhau i fonitro amserlenni ar wefan Hamdden Sir Ddinbych Cyf (amserlenni nofio, amserlenni aelodaeth i blant, ac amserlenni dosbarthiadau)
Canlyniad	Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn fodlon gyda'r dystiolaeth ar gamau a chymerwyd felly nodwyd bod yr ymchwiliad hwn ar gau 23/10/24

Cwyn 2

Dyddiad	28/08/2024
Yr Achwynnydd	Gweithiwr Cyngor Sir

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

Dyddiad	28/08/2024
Natur y gŵyn	Llythyr cynnig swydd gwallus yn cynnwys geiriau a ymadroddion Saesneg mewn llythyr uniaith Gymraeg.
Ymateb y Cyngor	• C ysylltodd Swyddog Iaith Gymraeg y Cyngor ar Adran Adnoddau dynol. • Cadarnhawyd fod hyn yn wall dynol a byddai systemau gwirio yn cael eu cyflwyno i sicrhau'r na fyddai hyn yn digwydd eto.
Canlyniad	Anfonwyd Llythyr newydd cywir i'r aelod o staff ynghyd ag ymddiheuriad am y llythyr gwreiddiol ar 06/09/24

Cwyn 3

Dyddiad	18/11/2024
Yr Achwynydd	Aelod o'r Cyhoedd
Natur y gŵyn	Arwydd ffordd aneglur / Cymraeg diffygiol
Ymateb y Cyngor	Cysylltodd Swyddog Iaith y Cyngor gyda'r Adran Priffyrdd i'w hysbysu.
Canlyniad	Newidiwyd yr arwydd.

Cwyn 4

Dyddiad	01/11/24
----------------	-----------------

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

Yr Achwynydd	Aelod o'r Cyhoedd
Natur y gŵyn	Neges uniaith Saesneg wedi'i ysgrifennu ar bin gwastraff yn esbonio pam bod y bin heb ei gasglu.
Ymateb y Cyngor	Anfonwyd neges i Swyddogion Gwastraff i ddefnyddio sticeri dwyieithog i nodi halogiad.
Canlyniad	Criwiau i anelu at ddefnyddio'r sticer dwyieithog â blychau ticio i nodi halogiad o hyn ymlaen. *Fodd bynnag, bydd achlysuron prin pan fydd angen i weithredwyr roi gwybodaeth ychwanegol sy'n wahanol i'r hyn sydd ar y sticer (mae'n amhosibl cynnwys pob sefyllfa bosibl). Ymddiheurwyd i'r aelod o'r cyhoedd ac eglurwyd ein bod yn dileu'r hen sticeri lle roedd yn rhaid i weithredwyr ysgrifennu'r rheswm dros halogiad, ac yn symud at ddefnyddio'r rhai dwyieithog â blychau ticio yn unig.

7.0 Edrych i'r dyfodol - Cynlluniau 2025-26

Dyma'r cynlluniau sydd ar y gweill neu a fydd yn cael blaenoriaeth y flwyddyn nesaf.

1. Cyhoeddi Polisi hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg Newydd a sicrhau bod Uwch Swyddogion a rheolwyr yn deall ei gynnwys. Mewn arolwg staff diweddar gofynnwyd y cwestiwn "Mewn wythnos arferol faint wyt ti'n defnyddio'r Gymraeg":

Pa mor aml wyt ti'n defnyddio'r Gymraeg	Canran (%)
Byth	47%
1 waith yr wythnos	16%

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2024 i 2025

Pa mor aml wyt ti'n defnyddio'r Gymraeg	Canran (%)
2 neu 3 diwrnod yr wythnos	14%
Bob diwrnod	23%

Gofynnwyd hefyd am farn ar y datganiad yma - "Mae'r cyngor yn cefnogi ac yn annog defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle".

Cytuno yn gryf neu'n cytuno: 84%

Byddwn yn defnyddio'r data uchod i fonitro llwyddiant ein Polisi hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg dros y 5 mlynedd nesaf fel bod y canran o'r staff sydd byth yn defnyddio'r Gymraeg yn lleihau a'r canran o staff sydd yn ei ddefnyddio bob diwrnod yn cynyddu.

2. Datblygu tudalen we Cymraeg mewn Busnes ar wefan Cyngor Sir Ddinbych i amlygu arfer gorau wrth hyrwyddo'r arlwy Cymraeg ymhlith y gymuned fusnes.
3. Diweddarau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith a chynyddu y canran sy'n ei gwblhau.
4. Cryfhau a gwella canllawiau i Swyddogion ar sut i gwblhau Asesiad Effaith ar Les i sicrhau Ymdrech Gydwytbodol ar ystyried yr effaith ar y Gymraeg.
5. Cwblhau bas data o categoreiddio sgiliau Cymraeg ar gyfer bob swydd yn y Cyngor.
6. A nfon holiadur Sgiliau Cymraeg i staff er mwyn diweddarau Lefelau sgiliau Cymraeg staff gan geisio leihau y nifer o staff sydd yn Lefel 0.